

## CYNGOR CAERDYDD

### CYFARFOD CABINET: 23 IONAWR 2020

---

#### YSGOL GYNRADD NEWYDD I WASANAETHU RHANNAU O GREIGIAU / SAIN FFAGAN, RADUR / PENTRE-POETH A'R TYLLGOED

#### ADDYSG, CYFLOGAETH A SGILIAU – (Y CYNGHORYDD SARAH MERRY)

#### EITEM AGENDA:

---

##### Rheswm dros yr Adroddiad hwn

1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw i:
  - hysbysu'r cabinet o'r ymatebion a ddaeth i law yn dilyn yr ymgynghoriad ar gynigion parthed sefydlu darpariaeth gynradd newydd i wasanaethu camau cynnar y datblygiad tai ym Mhlasdŵr yng ngogledd-orllewin Caerdydd, ac
  - i geisio awdurdod, lle bo'n briodol, i fwrw ymlaen a chyhoeddi'r cynnig yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

##### Cefndir

2. Bydd datblygiadau tai newydd yng ngogledd orllewin Caerdydd yn cynyddu nifer y plant fydd angen lleoedd ysgol yn yr ardal. Bydd hyn yn cael effaith ar nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgolion presennol.
3. Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer adeiladu cam cyntaf datblygiad Plasdŵr (hyd at 630 o anheddau) gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor ym mis Chwefror 2016.
4. Fel rhan o'r cytundeb cynllunio gyda'r Cyngor, mae ysgol newydd yn cael ei darparu gan ddatblygwr y safle i wasanaethu'r tai yn y cam cyntaf, yr ardal ehangach a pheth datblygiadau tai yn y dyfodol sydd hefyd wedi eu cynllunio.
5. Yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2019, ystyriodd Cabinet y Cyngor adroddiad a oedd yn cynnig amrywiad ar y ddarpariaeth ysgol/safle ysgol ddwy ffrwd draddodiadol er mwyn ymateb yn gadarnhaol i'r angen i greu mwy o ddinasyddion dwyieithog (rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg).
6. Byddai'r model hwn yn cefnogi'r cyngor wrth gyflawni'r targedau yn Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru drwy

- Hwyluso trochiad ieithyddol llawn i blant yn y ffrwd Gymraeg, yn gyson ag ysgolion cynradd eraill yng Nghaerdydd
  - Defnyddio ymagweddau arloesol i ddysgu'r Gymraeg i ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg.
7. Byddai sefydliad dwy ffrwd yn galluogi gweithio mewn partneriaeth glos trwy rannu safle a chyfleusterau. Byddai hefyd yn galluogi plant yn y ffrwd Saesneg yn bennaf i gael gafael mwy cadarn ar y Gymraeg.
8. Yn y cyfarfod ar 18 Ebrill 2019, Cytunodd Cabinet y Cyngor ar argymhelliad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion i:
- Sefydlu ysgol gynradd newydd dau ddosbarth mynediad, â dwy ffrwd iaith wedi eu trefnu fel un dosbarth mynediad Cymraeg (30 lle fesul grŵp blwyddyn) ac un dosbarth mynediad Saesneg yn bennaf, gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg (30 lle fesul grŵp blwyddyn) gan ddarparu cyfanswm o 420 lle cynradd yn yr ysgol.
  - Darparu 48 lle rhan amser yn y feithrinfa ar gyfer y ffrwd Gymraeg a 48 lle meithrin ar gyfer y ffrwd Saesneg

### **Materion i'w Hystyried**

9. Roedd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o 9 Medi hyd 28 Hydref 2019.
10. Roedd y broses ymgynghori yn golygu:
- Cyhoeddi dogfen ymgynghori yn amlinellu'r cefndir, y rhesymau a'r oblygiadau. Gwnaed nifer o ymgynghoreion yn ymwybodol o'r ddogfen gan gynnwys rhieni, darparwyr gofal plant lleol, Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ysgolion gerllaw, pob Aelod ward lleol a rhanddeiliaid eraill (mae modd gweld copi o'r ddogfen ymgynghori yn Atodiad 1);
  - Cyfarfodydd â chynrychiolwyr disgyblion o Ysgol Uwchradd Radur ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr (mae copi o nodiadau o'r cyfarfodydd i'w gweld yn Atodiad 2);
  - Cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Gyfun Radur (mae modd gweld copi o nodiadau'r cyfarfod yn Atodiad 3);
  - Sesiynau galw heibio yn swyddfa safle Redrow Plasdŵr, Canolfan Hamdden y Tyllgoed, y Llyfrgell Ganolog a Llyfrgell Radur (mae modd gweld copi o nodiadau'r sesiynau galw heibio yn Atodiad 4);
  - Slip ymateb i ymgynghoriad i'w ddychwelyd yn y post neu drwy e-bost, a atodwyd i'r ddogfen ymgynghori;
  - Ffurflen ymateb ar-lein yn: [www.cardiff.gov.uk/Plasdwrschool](http://www.cardiff.gov.uk/Plasdwrschool)
11. Mae'r farn a fynegwyd mewn cyfarfodydd a drefnwyd gan y Cyngor, ac ar bapur neu yn electronig drwy'r sianelau priodol wedi eu cofnodi.

### **Ymatebion a dderbyniwyd yn ymwneud â'r cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori**

12. Cafwyd cyfanswm o 180 o ymatebion.
13. Cafwyd ymatebion yn ffurfiol gan:
  - Mark Drakeford AS
  - Estyn
  - Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
  - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth
  - Cylch Meithrin Creigiau
  - Cymdeithas yr Iaith
  - Mudiad Meithrin
  - Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
14. Mae'r ymateb gan Estyn yn gosod ei farn ger bron sef fod:
  - y cynnig yn unol ag amcan Llywodraeth Cymru o gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr), drwy gynyddu'r defnydd ar y Gymraeg o fewn addysg yng Nghaerdydd;
  - mae'r cynnig yn rhesymol wrth fynd i'r afael â'r angen i gynnig mwy o lefydd Cymraeg a Saesneg drwy godi ysgol newydd ar gyfer datblygiad newydd Plasdŵr;
  - mae'r Cyngor wedi ystyried ystod o ddewisiadau yn briodol ac wedi dewis y cynnig uchod.
15. Mae Estyn o'r farn fod y cynnig hwn o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol.
16. Mae copïau o'r ymatebion ffurfiol i'w cael yn Atodiad 5.
17. Derbyniwyd deiseb hefyd ag arni 876 llofnod gan Gymdeithas yr Iaith. Mae'r ddeiseb yn galw ar i'r Cyngor "ymrwymo i agor ysgol ddwy ffrwd Gymraeg ym Mhlasdŵr er mwyn sicrhau fod Caerdydd yn gwneud y cyfraniad sydd ei angen i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg".
18. Ceisiwyd barn rhanddeiliaid â diddordeb drwy gyfrwng arolwg ar-lein a fersiwn copi caled o'r arolwg o fewn y ddogfen ymgynghori.
19. Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr disgyblion o Ysgol Gyfun Radur ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr er mwyn ceisio barn ganddynt ar y cynigion (gellir gweld manylion y sesiynau a'r farn a leisiwyd yn Atodiad 2).

### **Y Farn a Leisiwyd**

20. O'r 180 ymateb a ddaeth i law, daeth 172 o'r arolwg rhanddeiliaid ehangach; 50% (86) gan aelodau o'r cyhoedd â diddordeb (na nododd eu hunain fel rhieni) a llai na hanner (79) yn ymatebion gan rai a nododd eu

hunain fel rhieni. Cafwyd nifer bychan o ymatebion (13) gan bobl a nododd eu hunain fel aelodau staff a llywodraethwyr ysgol. Nododd nifer o ymatebwyr eu hunain fel mwy nag un neu ddim un o'r dewisiadau.

21. O'r rhai a nododd eu cod post wrth ymateb, roedd 53% o'r ymatebwyr yn byw o fewn ardaloedd Creigiau / Sain Ffagan, Radur / Pentre-poeth a'r Tyllgoed a fyddai'n cael eu gwasanaethu gan yr ysgol, roedd 38% yn byw mewn rhannau eraill o Gaerdydd a 9% y tu hwnt i Gaerdydd.
22. Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn gefnogol i'r cynnig gyda 58% (99) o'r rhai a ymatebodd yn ffafrio sefydlu ysgol gynradd newydd dau ddsbarth mynediad i wasanaethu rhannau o ddatblygiad Plasdŵr yng ngogledd-orllewin Caerdydd gyda 9% (15) o'r rhai a ymatebodd yn cyfeirio'n benodol at gefnogi'r syniad o ysgol ddwy ffrwd yn hytrach nag un ai ysgol Gymraeg neu Saesneg yn unig.
23. O'r rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig, roedd 43% yn aelodau o'r cyhoedd â diddordeb a 55% yn rhieni. Ar ben hynny, o'r rhai a roddodd gyfeiriad cod post yn nodi eu bod yn byw yn ardaloedd Creigiau / Sain Ffagan, Radur / Pentre-poeth a'r Tyllgoed, roedd 77% yn cefnogi'r cynnig.
24. O'r rhai nad oedd yn cefnogi'r cynnig o ysgol gynradd newydd dau ddsbarth mynediad, nododd 60% eu hunain fel aelodau o'r cyhoedd â diddordeb a 36% yn rhieni. Roedd y rhesymau dros beidio cefnogi'r cynnig yn cynnwys:
  - y farn nad oedd angen ffrwd Gymraeg oherwydd diffyg galw posib;
  - fod angen mwy o ysgolion Cymraeg i ateb y galw ac i gefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
  - y byddai ysgol ddwy ffrwd yn cyfyngu ar ddatblygiad y Gymraeg.
25. Roedd cefnogaeth sylweddol i sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol newydd gyda 92% o blaid hyn.
26. Roedd cefnogaeth i ddarparu gwasanaethau ychwanegol gan gynnwys brecwast a chlybiau ar ôl ysgol ac adeg gwyliau.

### Ymgysylltiad disgyblion

27. Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr o Ysgol Gyfun Radur ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i glywed eu barn ar y cynnig.
28. Roedd y ddau set o ddisgyblion i gyd yn ymwybodol o'r datblygiad a'r cynnig i sefydlu darpariaeth gynradd newydd.
29. Roedd y disgyblion yn teimlo y byddai'r cynnig yn darparu llefydd Cymraeg a Saesneg i blant lleol i'r datblygiad; yn hyrwyddo defnydd ar y Gymraeg; yn cynnig cyfleoedd i blant yn y ddwy ffrwd; yn lleihau gorboblogi mewn ysgolion lleol a chynnig cyfleoedd i blant yn y ddwy ffrwd, ar gyfer cyflogaeth ac amgylchedd dysgu o safon uchel.

30. Mynegodd disgyblion oedd â phrofiad blaenorol o fynychu ysgol gynradd ddwy ffrwd (Cymraeg a Saesneg) yng Nghaerdydd awydd cryf i sicrhau cyfle cyfartal i'r naill ffrwd a'r llall yn yr ysgol arfaethedig, a chyfleoedd i'r ddwy ffrwd weithio neu gymdeithasu fel grŵp ar y cyd.
31. Roedd y disgyblion yn pryderu am gynnydd posib o ran traffig, na fyddai efallai ddigon o lefydd ysgol uwchradd; efallai y byddai effaith ar yr adnoddau oedd ar gael i ysgolion sy'n bodoli eisoes; efallai y byddai disgyblion sy'n symud i'r ardal dan anfantais; efallai y byddai'n haws i ddisgyblion optio allan o'r Gymraeg ac a fyddai'r ysgol yn ddigon mawr i'r holl blant.

**Crynodeb**

32. Mae modd gweld crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd, a gwerthusiad o'r farn a fynegwyd, yn Atodiad 6.
33. Mae crynodeb ddadansoddol o'r ymatebion a dderbyniwyd wedi ei gynnwys yn Atodiad 7.
34. Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn gefnogol o'r cynnig fodd bynnag codwyd nifer o bryderon:
  - ni fydd y model iaith a gynigir yn cefnogi'r cynnydd tuag at Strategaeth 2050 Llywodraeth Cymru (2017) o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
  - trochi mewn ysgol Gymraeg yw'r model gorau sydd o sicrhau caffaeliad iaith y gellid ond ei gyflawni drwy sefydlu ysgol Gymraeg dau ddsbarth mynediad gyda'r Gymraeg fel y cyfrwng cyfathrebu;
  - bydd gofyn i'r ysgol gael ei harwain a'i staffio gan siaradwyr Cymraeg rhugl ac mae pryderon na fyddai digon o staff cymwys ar bob lefel i hwyluso hyn;
  - dylai'r ddarpariaeth feithrin arfaethedig fod yn Gymraeg yn unig i hwyluso trochi cynnar. Dylai clybiau brecwast, ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau hefyd fod yn Gymraeg yn unig;
  - Dylid ystyried sefydlu darpariaeth cylch meithrin ar y safle i hwyluso trochi ieithyddol ar y cyfle cynharaf posib;
  - dylai pob ysgol newydd fel rhan o ddatblygiad Plasdŵr fod yn rai Cymraeg yn unig;
  - Mae'r Gymraeg yn cael ei gorfodi yn hytrach na bod yn ddewis actif. Dylai'r ysgol newydd arfaethedig fod yn un dosbarth mynediad Cymraeg ac un dosbarth mynediad Saesneg, nid un dosbarth mynediad Saesneg yn bennaf gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg;
  - Mae cael nifer uwch o lefydd meithrin (48 fesul ffrwd) yn creu anawsterau wrth i'r plant drosglwyddo i'r ysgol gynradd pan nad oes ond 30 lle ar gael;
  - rhaid i'r ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg aros yn annibynnol ar ei gilydd er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus addysg drochi Cymraeg. Mae'r Gymraeg yn hanfodol fel yr iaith gyfathrebu yn y ffrwd Gymraeg er mwyn sicrhau trochi ieithyddol llwyr;
  - tagfeydd traffig a'r angen i gael llwybrau mwy diogel i gerddwyr a beicwyr;

- pwysigrwydd dalgylchoedd priodol nad sy'n effeithio ar ysgolion eraill;
- capasiti ysgolion uwchradd lleol; a fydd digon o lefydd ar gael mewn ysgolion uwchradd ar gyfer y cynnydd mewn disgyblion;
- mae angen tynnu'r llinell amser ymlaen am fod teuluoedd yn symud i mewn nawr.

### Ymateb i'r Farn a Leisiwyd

35. Mae'r Cyngor yn croesawu'r gefnogaeth a leisiwyd i'r cynigion.
36. Cydnabyddir y pryderon yn benodol ynghylch y cynnydd tuag at Strategaeth Gymraeg 2050 Llywodraeth Cymru (2017) o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (gweler Atodiad 9); trochi ieithyddol; digon o staff cymwys; tagfeydd traffig; capasiti ysgolion uwchradd lleol a'r llinell amser o ran dwyn yr ysgol i fod yn gynharach.
37. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Cymraeg 2050 yn 2017 a oedd yn cyflwyno gweledigaeth gerbron o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
38. Nod y strategaeth yw i 40 y cant o blant yng Nghymru, ym mhob grŵp blwyddyn, i dderbyn addysg Gymraeg, gyda phob un yn gallu adrodd eu bod yn rhugl yn y Gymraeg. Fodd bynnag, hefyd yn allweddol i'r strategaeth yw bod hanner y 60 y cant o blant sy'n weddill mewn addysg Saesneg hefyd yn adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r strategaeth yn nodi'n glir, er mwyn i Gymru gyrraedd miliwn o siaradwyr "bydd gofyn i ni gynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion Saesneg sy'n llwyddo i gaffael y Gymraeg". (Gellir gweld manylion y strategaeth yn Atodiad 9).
39. Ni ellir cyflawni targedau Cymraeg 2050 yng Nghaerdydd drwy sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd yn unig.
40. Fel y nodwyd yn yr ymateb manwl i'r pwyntiau a godwyd yn Atodiad 6, gwelodd y pum mlynedd diwethaf yr ehangu ar a'r buddsoddiad mewn addysg Gymraeg yng Nghaerdydd gan arwain at chwe dosbarth mynediad ychwanegol (180 lle fesul grŵp blwyddyn) ers 2012. Mae cyfanswm y llefydd mynediad sydd ar gael i addysg gynradd Gymraeg ledled y ddinas bellach yn 840 o lefydd, o'i gymharu â'r nifer o 710 o ddisgyblion a dderbyniwyd yn ddiweddar.
41. Mae canran y boblogaeth sydd yn dewis addysg Gymraeg wedi aros yn lled gyson dros y cyfnod hwn gan amrywio rhwng 15.8% ac 17.2% yn y cyfnod 2015 i 2019. Mae amcanestyniadau ar hyn o bryd yn awgrymu na fydd y canran hwn o lefydd yn newid yn sylweddol. Bydd nifer y disgyblion sy'n mynd i addysg gynradd Gymraeg yn lleihau, sydd yn alinio â'r lleihad yn nifer y disgyblion yn gyffredinol yn dilyn gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau.
42. Gallai cyfanswm nifer y llefydd Cymraeg sydd ar gael adeg mynediad i addysg gynradd ledled y ddinas gynnig lle felly i tua 22% o'r boblogaeth

ddisgyblion a amcanestynnir yn 2022 a 2023. Mae digon o gapasiti yn y sector cynradd Cymraeg i ganiatáu cynnydd sylweddol i ddigwydd.

43. Mae datblygu sgiliau Cymraeg yn y sector Saesneg yn gyfraniad pwysig i'w wneud o ran y nod o ddatblygu siaradwyr Cymraeg. I gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg rhaid trawsnewid y modd y caiff y Gymraeg ei dysgu mewn ysgolion.
44. Gellir gweld un o'r enghreifftiau mwyaf llwyddiannus o'r model dwy ffrwd yng Ngwlad y Basg, sydd wedi cefnogi symudiad sylfaenol tuag at ddwyieithrwydd yno a mwy o lefydd addysg yn cael eu cymryd trwy gyfrwng y Fasgeg.
45. Mae cyflwyno system sydd yn caniatáu i blant dderbyn addysg trwy gyfrwng y Sbaeneg (Model A), model dwyieithog ar gyfer siaradwyr Sbaeneg sydd am fod yn ddwyieithog mewn Sbaeneg a Basgeg (Model B) a thrydydd dewis drwy gyfrwng y Fasgeg (Model D) wedi arwain at tua 90% o blant y rhanbarth i dderbyn addysg drwy gyfrwng Sbaeneg a'r Fasgeg a chynyddu lefel dwyieithrwydd yno.
46. Byddai'r ysgol ddwy ffrwd arfaethedig yn galluogi gweithio partneriaeth agos rhwng y ddwy ffrwd a rhannu safle a chyfleusterau, a byddai'n hwyluso trochiad iaith llawn ar gyfer y plant yn gyson ag ysgolion Cymraeg eraill a dosbarthiadau Cymraeg mewn ysgolion dwy ffrwd yng Nghaerdydd. Byddai'r math hwn o drefniadaeth hefyd yn galluogi'r plant yn y ffrwd Saesneg yn bennaf i adeiladu caffaeliad mwy cadarn o ran y Gymraeg.
47. Mae'r model arfaethedig yn cynnig mecanwaith i hwyluso hyn a'r potensial i weithredu fel model o ragoriaeth ieithyddol, a fydd yn gallu cefnogi arfer newydd mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd.
48. Byddai'r cynnig yn cyfrannu at ac yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru trwy gynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg Gymraeg yn gynaliadwy a rhoi budd i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg trwy gyfrwng addysg Saesneg.
49. Ceir enghreifftiau o ysgolion dwy ffrwd llwyddiannus yn gweithredu yng Nghaerdydd ac mewn awdurdodau lleol eraill a'r disgwyliad yw y bydd y ffrwd Gymraeg yn parhau i allu manteisio ar drochiad iaith llawn tra bydd y rhai sydd yn y ffrwd Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg yn cael cyfle i adeiladu sail ieithyddol fwy cadarn yn eu hail iaith.
50. Byddai trefn ddwy ffrwd yr ysgol yn creu cyfleoedd i'r ddwy ffrwd weithio neu gymdeithasu fel un grŵp lle bo hyn yn briodol a heb gyfaddawdu ar drochiad iaith, yn gyson a dymuniadau'r disgyblion a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad.
51. Caiff ysgolion cynradd dwy ffrwd Caerdydd, Ysgol Gynradd Creigiau ac Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth, bob un eu categoreiddio fel 'Gwyrdd' gan Lywodraeth Cymru.

52. Yn genedlaethol, mae'r data cyhoeddedig mwyaf diweddar ar gyfer ysgolion sydd wedi eu dosbarthu fel 'Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg', yn fwy na 0.5 dosbarth mynediad o ran maint, yn dangos 11 wedi eu nodi fel rhai Gwyrdd a'r 14 sy'n weddill fel rhai Melyn.
53. Fel y nodwyd yn Cymraeg 2050, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i sicrhau cyflenwad digonol o athrawon ac ymarferwyr yn y lle iawn i gyrraedd plant a phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg ac wedi nodi'r angen i gynyddu capasiti'r system i ateb yr angen i ehangu addysg a hyfforddiant Cymraeg, ac i ateb yr angen i wella'r modd y caiff y Gymraeg ei dysgu mewn ysgolion Saesneg.
54. Byddai'r model o ysgol arfaethedig yn gofyn cael arweinyddiaeth a staff addysgu sydd yn rhugl y Gymraeg. Byddai gofyn i Gorff Llywodraethu'r ysgol benodi arweinydd ysgol profiadol, rhugl y Gymraeg er mwyn sicrhau fod ethos Gymraeg gref yn gyson ar draws y ddwy ffrwd iaith yn yr ysgol.
55. Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor (2006-2026) yn cynnwys targed o wneud 50% o'r holl deithiau trwy ddulliau trafndiaeth gynaliadwy. Gall lleihau cyfran y teithiau ysgol a wneir mewn ceir a gwneud y gorau o gyfleoedd i deithio i'r ysgol trwy ddulliau cynaliadwy gyfrannu'n sylweddol at gyrraedd y targed hwn a gostwng pwysau ar y rhwydwaith trafndiaeth yn y cyfnodau prysuraf.
56. Byddai sefydlu'r ysgol ddwy ffrwd iaith arfaethedig yn golygu y byddai ar lai o deuluoedd yn yr ardal angen teithio i rywle arall i gael addysg trwy gyfrwng eu dewis o iaith. Bydd hyn yn galluogi dulliau llesol o deithio i'r ysgol, fel cerdded, beicio neu sgwtera.
57. Bydd cynyddu teithio i'r ysgol trwy ddulliau llesol yn effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a llesiant plant a bydd yn cefnogi gweithredu camau allweddol a chanlyniadau Targed 5 Strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant y Cyngor (2018), sy'n cyfeirio at sicrhau amgylcheddau diogel y tu allan ar gyfer chwarae ffurfiol ac anffurfiol, cerdded, beicio a sgwtio a theithio llesol i'r ysgol.
58. Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.
59. Mae'r uwch gynllun ar gyfer datblygiad Plasdŵr wedi ei ddylunio i hwyluso teithiau o fewn a'r tu hwnt i'r datblygiad tai trwy gerdded a beicio. Mae hyn yn cynnwys darparu rhwydwaith o lwybrau beics, yn cynnwys llwybrau ar wahân i lonydd y traffig.
60. Caiff Cynllun Teithio Llesol ei ddatblygu ar y cyd â materion cynllunio, dylunio a chodi'r ysgol newydd ac mae'n debygol o fod yn amod yn y cydsyniad cynllunio.



61. Caiff y ddarpariaeth llefydd ysgol uwchradd ei hadolygu ac fe gaiff cynigion eu cyflwyno mewn da bryd i sicrhau bod digon o lefydd i ateb y galw am lefydd mewn ysgolion uwchradd yn y ddwy iaith, a ddaw yn sgil y datblygiadau tai newydd.
62. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol pan fo hynny'n bosibl. Mae ysgol newydd yn cael ei darparu gan ddatblygwr y safle fel rhan o'r cytundeb cynllunio gyda'r cyngor i ateb y galw ar y datblygiad newydd a'r tai sy'n cael eu cynllunio i'r dyfodol. Y dyddiad agor arfaethedig yw mis Medi 2021 ac ni ragwelir y bydd unrhyw oedi yn yr amserlen yma (yn amodol ar broses/cymeradwyaeth statudol).

### **Cyllido'r ysgol newydd arfaethedig**

63. Mae'r ysgol gynradd newydd ar gam cyntaf datblygiad Plasdŵr yn cael ei chodi gan y datblygwr a'r bwriad yw ei gorffen yn ystod haf 2021. Mae buddsoddiad cyfalaf sylweddol wedi ei sicrhau drwy gyfrwng cytundeb a106 i'r datblygwr tai i ddarparu'r safle a'r adeilad ysgol newydd.
64. Negodwyd cyfraniadau'r datblygwr at ddarpariaeth Addysgol i wasanaethu datblygiad Plasdŵr yn unol â Chanllaw Cynllunio Atodol Addysg (CCA) 2007 a fodolai adeg y caniatâd cynllunio.
65. Nid oedd CCA 2007 yn gadael i'r Cyngor wneud cais am arian i gyllido llefydd meithrin. Ni ellir sicrhau cyllid ar gyfer celfi rhydd, ffitiadau na TGCh drwy'r mecanwaith hon. Tra bydd rhai o'r gofynion hyn yn cael eu cynllunio o fewn cwmpas y cynlluniau, disgwylir diffyg rhwng yr ymrwymiad ariannol drwy gyfrwng cytundeb a106, a'r gyllideb fydd ei hangen i adeiladu a dodrefnu a chynnig adnoddau llawn i'r ysgol os cytunir i fwrw ymlaen â'r cynllun. Bydd y diffyg hwn yn gofyn dod o hyd i a blaenoriaethu cyfraniad ariannu o ffynonellau eraill er mwyn gwireddu safle ysgol orffenedig a pharod.

### **Llywodraethiant**

66. Os aiff y cynnig hwn am ysgol newydd yn ei flaen, caiff Corff Llywodraethu dros dro ei sefydlu ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai ystod o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli ar y corff llywodraethu dros dro, yn cynnwys rhieni, athrawon (o ysgolion lleol), staff nad ydynt yn addysgu (o ysgolion lleol), cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol a phartneriaid cymunedol. Y Cyngor fyddai'n penodi'r staff o'r Awdurdod Lleol nad ydynt yn staff addysgu a rhiant-lywodraethwyr a'r corff llywodraethu dros dro fyddai'n penodi'r athrawon-lywodraethwyr a'r llywodraethwyr cymunedol.
67. Byddai'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am benodi Pennaeth, cytuno ar strwythur staffio a phenderfynu ar agweddau eraill megis enw'r ysgol, ei gwisg ysgol a'i logo.
68. Yn ogystal â hyn byddai gofyn i'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu ystyried polisïau a gweithdrefnau AD y gellid eu mabwysiadu mewn perthynas â recriwtio ac unwaith y bydd yr ysgol wedi'i sefydlu, mewn perthynas â rheoli staff. Byddai'r Cyngor yn annog mabwysiadu polisïau Cyngor

Caerdydd gan fod y rhain wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda chynrychiolwyr yr undebau llafur.

**Ymgynghoriad Aelodau Lleol (Ile bo hynny'n briodol)**

69. Ymgynghorwyd ag aelodau lleol fel rhan o'r ymgynghoriad.

**Rheswm dros yr Argymhellion**

70. Er mwyn ymateb i'r galw arfaethedig am lefydd Cymraeg a Saesneg cynradd ychwanegol i wasanaethu'r datblygiadau tai newydd yn ardaloedd Creigiau / Sain Ffagan, Radur / Pentre-poeth a'r Tyllgoed.

**Goblygiadau Ariannol**

71. Nid yw oblygiadau ariannol y cynnig hwn wedi gwyro rhyw lawer o'r rhai a amlinellwyd yn yr adroddiad a ragflaenodd yr ymgynghoriad cyhoeddus, gydag argymhelliad i fwrw ymlaen i sefydlu ysgol gynradd dau ddsbarth mynediad ddwy ffrwd.

72. O ran oblygiadau refeniw, bydd gofyn ffactora i broses gosod cyllideb flynyddol y Cyngor, yr adnoddau angenrheidiol i gyllido'r ysgolion hyn a'u hadlewyrchu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Wrth i gapasiti yr ysgol gynyddu fesul cam, bydd yn angenrheidiol sicrhau y bydd y twf hwn yn cael ei ychwanegu'n flynyddol i'r gyllideb ysgolion gyffredinol, er mwyn osgoi niweidio'n ariannol yr ysgolion eraill yng Nghaerdydd. Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar hyn o bryd o ran trafndiaeth ysgol, fodd bynnag bydd gofyn cadw golwg ar hyn wrth i'r ysgol dyfu. Yn benodol, gall y pwyslais arfaethedig ar y Gymraeg fod ag oblygiadau o ran gofynion addysg drochi Cymraeg yng Nghaerdydd. Felly, gallai oblygiadau ariannol godi pe byddai gofyn cynyddu'r capasiti trochi o fewn y ddinas a chludo disgyblion i Uned Drochi'r Gymraeg, yn ôl yr angen. Ar ben hynny, bydd gofyn dod o hyd i arian o fewn adnoddau presennol Trefniadaeth Ysgolion i dalu am unrhyw gostau a allai godi cyn i'r ysgol agor ym mis Medi 2021.

73. O ran yr oblygiadau cyfalaf, bydd gwaith yn mynd rhagddo er mwyn asesu'n llawn gost debygol yr adeilad ysgol newydd a'r risg ynghlwm â bod y cyfraniadau s106 ddim yn ddigon i dalu am y datblygiad hwn. Os deuir i'r casgliad y bydd y gost yn fwy na'r lefel cyfraniad sydd ar gael, bydd gofyn dod o hyd i gyllid i fodloni gofyniad y Cyngor i wneud cyfraniad tuag at y gost gyffredinol. Bydd angen i hyn gael ei ariannu o fewn yr adnoddau presennol a gymeradwywyd neu eu ffactora i gynlluniau Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid gwneud pob ymdrech er mwyn sicrhau gwerth am arian a bod y gofyn am gyfaniad gan y Cyngor yn cael ei gadw cyn ised ag y bo modd. Bydd gofyn ffactora gofynion cynnal a chadw parhaus adeilad yr ysgol hefyd i gynlluniau rheoli asedau yn y dyfodol.

**Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n briodol)**

74. O dan ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd gyffredinol statudol ar y Cyngor i hyrwyddo safonau addysg uchel ac i gynnig digon o lefydd ysgol i ddisgyblion o oed ysgol.
75. Gall unrhyw gynnig i sefydlu ysgol gynradd newydd gael ei wneud gan awdurdod lleol o dan Adran 41 Deddf 2013. Mae Adran 48 Deddf 2013 yn gofyn fod angen ymgynghori ar gynigion o'r fath, yna eu cyhoeddi, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (sydd yn cynnwys cymysgedd o ganllawiau statudol y mae'n rhaid i Awdurdodau dalu sylw iddynt wrth arfer unrhyw rym neu wneud unrhyw benderfyniad o dan y Ddeddf a darpariaethau gwirioneddol y mae'n rhaid i Awdurdodau gydymffurfio â hwy).
76. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn gosod amrywiol ffactorau ger bron y dylid eu hystyried wrth lunio cynigion, sydd yn cynnwys rhoi sylw arbennig i effaith y cynigion ar grwpiau sydd yn agored i niwed gan gynnwys gwella hygyrchedd i ddisgyblion anabl. Nodir fod ymgynghoriad wedi ei gynnal yn unol â'r cyngor cyfreithiol a roddwyd yn yr adroddiad cabinet blaenorol ar 18 Ebrill 2019. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, mae'r adroddiad hwn yn argymhell creu ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad ddwy ffrwd gyda darpariaeth feithrin ar gyfer y camau cynnar yn natblygiad Plasdŵr o fis Medi 2021.
77. Er mwyn bwrw ymlaen â'r cynnig, rhaid i'r Cabinet gyhoeddi hysbysiad statudol o'r cynnig o fewn 26 wythnos o ddiwedd cyfnod yr ymgynghoriad (oni bai fo estyniad wedi ei roi gan Weinidogion Cymru). Wedi cyhoeddi'r hysbysiad ar y cynigion statudol, ceir cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod (sydd yn gorfod cynnwys 15 diwrnod ysgol), ac yn dilyn hynny gall y Cyngor benderfynu ar ei gynigion (o dan adran 53 Deddf 2013). Os daw unrhyw wrthwynebiadau i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu (ac nad ydynt yn cael eu tynnu nôl), rhaid iddynt gael eu hystyried yn gydwobodol, law yn llaw â'r dadleuon parthed y cynigion ac yng ngoleuni'r ffactorau a osodir ger bron yn y Cod, pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar ei gynigion. Rhaid cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor ar yr un pryd ag y cyhoedda'r Cyngor ei benderfyniad. Mae pennu ar gynigion trefniadaeth ysgolion o dan adran 53 Deddf 2013 yn swyddogaeth dewis lleol sydd wedi ei ddyrannu i'r Cabinet o dany Cyfansoddiad (Rhan 3, Adran 3) Ar ôl gwneud penderfyniad gellir gweithredu'r cynigion. Nodir yn yr argymhellion cyn rhoi unrhyw gynnig ar waith bod adroddiad pellach yn cael ei ddarparu i'r Cabinet yn nodi manylion unrhyw wrthwynebiad a dderbyniwyd, yr ymatebion arfaethedig i'r gwrthwynebiadau hynny ac argymhelliad i roi'r cynllun ar waith neu fel arall.
78. Os eir â'r cynigion yn eu blaen, bydd gofyn pennu'r trefniadau derbyn, yn dilyn ymgynghoriad, yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion a'r Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.
79. Wrth ystyried y cynigion, rhaid i'r Cyngor barchu ei ddyletswyddau cyfle cyfartal sector gyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau penodol i'r sector gyhoeddus yng Nghymru). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol hyn, rhaid i Gynghorau wrth wneud

penderfyniadau dalu sylw dyledus i'r angen i (1) waredu gwahaniaethu anghyfreithlon, (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasoedd da ar sail nodweddion a ddiogelir. Y nodweddion a ddiogelir yw: Oed • Ailbennu rhywedd • Rhyw • Hil - gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd • Anabledd • Beichiogrwydd a mamolaeth • Priodas a phartneriaeth sifil • Cyfeiriadedd rhywiol • Crefydd neu gred - gan gynnwys diffyg cred. Dylid rhoi sylw dyledus i ganlyniadau'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

80. Rhaid i'r Cyngor fod yn ystyriol hefyd o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg ac ystyried effaith ei gynigion ar y Gymraeg.
81. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn bo'r Cyngor yn ystyried sut fydd y cynigion yn cyfrannu at fodloni ei amcanion llesiant (a nodir yn y Cynllun Corfforaethol). Rhaid bo aelodau hefyd yn fodlon fod y cynigion yn cydymffurfio ag egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd yn gofyn bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

### **Oblygiadau AD**

82. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Dros Dro'r ysgol newydd er mwyn ystyried a rhoi trefniadau arweinyddiaeth ar waith cyn agor yr ysgol newydd. Nod hyn yw rhoi amser ar gyfer gwneud penderfyniadau ar drefniadaeth a staffio, er mwyn sicrhau bod yr adnoddau priodol gan yr ysgol ar gyfer agor.
83. Bydd gofyn hefyd i'r Corff Llywodraethu Dros Dro ystyried y polisiau a'r gweithdrefnau AD y bydd yn eu mabwysiadu parthed cyflogi a rheoli staff. Bydd y Cyngor yn argymhell mabwysiadu Llawlyfr AD i Ysgolion sydd wedi ei ddylunio i gynnig polisiau a gweithdrefnau, gwybodaeth a chanllawiau i gyrff llywodraethu, Penaethiaid a staff, ar faterion adnoddau dynol a materion cyflogaeth sy'n ymwneud ag ysgolion.
84. Byddai mabwysiadu'r Llawlyfr AD yn llawn yn golygu y byddai unrhyw swyddi staff gweigion yn yr ysgol yn cynnig cyfleoedd i unigolion ar gofrestr adleoli'r ysgol, yn unol â Pholisi Adleoli a Dileu Swyddi'r Cyngor ar gyfer ysgolion.

### **Oblygiadau Eiddo**

85. Mae'r goblygiadau eiddo sy'n berthnasol ar gyfer darparu ysgol gynradd newydd i wasanaethu camau cynnar y datblygiad tai ym Mhlasdŵr yng ngogledd-orllewin Caerdydd wedi eu nodi o fewn y penderfyniad cynllunio presennol ac, ar hyn o bryd, ni nodwyd unrhyw faterion penodol o ran eiddo.
86. Dylid gwneud unrhyw ofyniad yn y dyfodol i brisio neu drosglwyddo tir a/neu eiddo i berchnogaeth y Cyngor er mwyn cyflawni amcanion darpariaeth yr ysgol yn unol â phroses Rheoli Asedau'r Cyngor ac mewn

ymgyngoriad â'r Landlord Corfforaethol, Ystadau Strategol a gwasanaethau perthnasol.

**Oblygiadau Traffig a Thrafnidiaeth**

87. Polisi'r Cyngor yw cynyddu cyfanswm y siwrneiau cyffredinol a wneir drwy ddulliau teithio cynaliadwy - cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae llawer o deithiau i'r ysgol yn fyr iawn. Mae 755 o siwrneiau i addysg yng Nghaerdydd o fewn 3km i gartrefi pobl. Gellir gwneud llawer o'r siwrneiau hyn trwy ddulliau llesol pe gellid gwneud gwelliannau i ddiogelwch ffyrdd a chreu llwybrau cerdded a beicio o fewn dalgylchoedd ysgolion Mae'r manteision ddaw o alluogi plant i deithio'n llesol i'r ysgol yn annibynnol - yn hytrach na mewn car o ran iechyd a llesiant - yn hysbys iawn.
88. Bydd y cynnig hwn yn cynyddu gweithgaredd addysgol ar y safle hwn drwy ehangu'r nifer o lefydd prif ffrwd. Bydd y ddarpariaeth ehangach yn golygu tripiâu ychwanegol i'r safle, fydd â'r potensial i ychwanegu at/newid y pwysedd ar y rhwydwaith briffyrdd leol.
89. Y targed presennol ar gyfer siwrneiau dulliau trafndiaeth gynaliadwy (sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yw sicrhau rhaniad 50:50 rhwng siwrneiau ceir a rhai ar droed, beic neu drafndiaeth gyhoeddus erbyn 2026. Caiff hyn ei gyflawni drwy sicrhau fod y datblygiad newydd wedi ei integreiddio yn llawn â'r seilwaith trafndiaeth sydd yn lliniaru effeithiau trafndiaeth ac yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy. Mae'n bwysig fod y cyfleuster ysgol newydd hwn yn adlewyrchu'n llawn bolisiau trafndiaeth y Cyngor ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r newid modd teithio.
90. Gellir cyflawni hyn drwy sicrhau fod dyluniad a gosodiad yr adeiladau a'r trefniadau mynedfa i'r safle yn rhoi blaenoriaeth i deithio llesol a dulliau teithio cynaliadwy. Elfennau allweddol eraill fydd lleoliad y pwyntiau mynediad mewn safleoedd a fydd yn ystyried aliniad y rhwydwaith ffyrdd a llwybrau ger llaw ac sydd yn anelu at gadw pellteroedd cerdded a beicio mor fyr â phosib ac osgoi gwyradau diangen i bobl yn teithio ar droed ac ar feic. Bydd darpariaeth cyfleusterau ar y safle, megis manau parcio diogel i feics a locedi i storio dillad ac offer beicio hefyd yn hanfodol.
91. Rhaid i ddarpariaeth parcio beics a sgwteri fodloni'r gofynion sylfaenol a nodir yng CCA Effeithiau Rheoli Trafndiaeth y Cyngor a rhaid i'r safle allu derbyn cynnydd mewn parcio i feics i fodloni galw yn y dyfodol.
92. Rhaid bod parcio i feics dan do ac yn ddiogel ac wedi ei leoli mewn lleoliad cyfleus ar y safle sydd yn rhwydd i ddisgyblion ei gyrchu a lle mae modd ei wyllo. Argymhellir standiau Sheffield. Ni fydd parcio beics ar lefelau yn dderbyniol
93. Bydd gofyn cyfyngu ar fynediad cerbydau i'r safle i staff a cherbydau gwasanaethu hanfodol. Bydd gofyn i unrhyw drafndiaeth dysgwyr CAA gael cyfleusterau codi a gollwng priodol. Fodd bynnag ni ddylid darparu cyfleusterau codi a gollwng â char i ddisgyblion eraill.

94. Dylai parcio ar y safle fod yn unol â Chanllaw Cynllunio Atodol Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth y Cyngor (2018). Y gofynion parcio ar gyfer ysgolion o fewn y CCA yw un man parcio i bob 30 disgybla byddai hyn yn berthnasol i'r ddarpariaeth brif ffrwd ar y safle. Ni fydd parcio ar strydoedd ger yr ysgol yn cael ei gymeradwyo ac fe ddefnyddir cyfyngiadau parcio priodol i'r perwyl hwnnw. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn treialu defnyddio Gorchmynion Rheoli Traffig i gyfyngu ar fynediad cerbydau i strydoedd y tu allan i ysgolion adeg yr oriau gollwng a chodi yn y bore a'r prynhawn. Mae'n bosib y gallai'r ymagwedd yma gael ei defnyddio i gyfyngu ar barcio a mynediad ynghlwm â'r ysgol newydd.
95. Bydd mesurau lliniaru ar gyfer trafndiaeth yn y datblygiad yn cael eu nodi trwy'r broses Asesu Trafnidiaeth (AT), a fydd yn bwydo'r cynigion ar gyfer caniatâd cynllunio.
96. Byddai'r AT yn nodi'r gwaith angen rheidiol ynghlwm â'r mynediad cerbydau angen rheidiol ar y safle a mesurau priffyrdd oddi ar y safle gan gynnwys unrhyw fesurau diogelwch, arafu traffig a chyfleusterau i gerddwyr, beicwyr a sgwtera gan gynnwys cyfleusterau croesi ar gyfer pob dull ar deithio llesol. Bydd gofyn i'r Tîm trafndiaeth ymgysylltu'n fuan yn y broses â'r dylunwyr a'r ymgynghorwyr trafndiaeth ar gyfer y project er mwyn sicrhau fod cyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi teithio cynaliadwy yn cael eu hystyried o'r dechrau'n deg ar y project a'u hymgorffori yn uwch-gynllun y safle.
97. Yn ogystal â mesurau priffyrdd ger gatiâu'r ysgol, bydd gofyn i'r gwaith hwn nodi gwelliannau eraill oddi ar y safle, gan gynnwys cysylltiadau a llwybrau teithio llesol presennol a darparu llwybrau newydd, angen rheidiol i wneud y gorau o'r cyfleoedd i gael disgyblion i gerdded, beicio a sgwtera i'r ysgol, ac i'r rheiny sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.
98. Ni ddisgwylir y bydd unrhyw ddisgybl yn gymwys i dderbyn trafndiaeth i ddysgwyr ac felly mae angen gwneud darpariaeth briodol er mwyn defnyddio gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys cyfleusterau aros diogel i ddisgyblion a staff yn defnyddio gwasanaethau bws wedi eu hamserlennu a mynediad diogel i gerddwyr at safleoedd bws mewn lleoliadau sydd yn gyfleus i'r ysgol, gyda chroesfannau sy'n briodol o ran y math, math o linellau a'r lefel defnydd,
99. Mae'r cyngor wedi ymrwymo i sicrhau fod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol erbyn 2020. Bydd gofyn i bob ysgol gael cynllun o'r fath o'r dechrau'n deg. Dylai'r Asesiad Trafnidiaeth fwydo'r Cynllun Teithio Llesol ar gyfer safle ysgol newydd Plasdŵr a'i ddatblygu gydag ymwneud llawn gan y staff a'r disgyblion mewn ysgolion ger llaw sy'n bod eisoes. Bydd hyn yn helpu i annog teithio llesol ar draws yr ardal leol a sicrhau y bydd disgyblion sy'n mynd i'r ysgol newydd yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i deithio i'r ysgol trwy ddulliau llesol. Gall swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn yr adroddiad hwn gefnogi datblygu Cynllun Teithio Llesol.

100. Yn ogystal â thrigolion cyntaf datblygiad Plasdŵr, disgwylir i'r ysgol yn y lle cyntaf ddenu disgyblion o'r ardaloedd a'r dalgylchoedd cyfagos a fydd efallai yn cynnwys peth gorlif o ardaloedd Radur a'r Tyllgoed. Byddai disgyblion o'r ardaloedd hyn yn teithio ymhellach o'r tu allan i ddalgylch Plasdŵr. Gallai hyn, ynghyd â lefelau isel y traffig ynghlwm â datblygiad sydd ond wedi ei gwblhau yn rhannol, olygu y gallent gael eu denu at wneud mwy o'r siwrneiau hyn gan ddefnyddio cerbydau preifat.
101. Gallai dalgylch Cymraeg yr ysgol fod yn ehangach na'r dalgylch Saesneg. Gallai hyn hefyd gyfrannu at weld disgyblion yn teithio yno o bellteroedd hwy na'r pellter arferol ar gyfer taith i ysgol gynradd.
102. Mae'n bwysig sicrhau fod cerdded, beicio a sgwtera i'r ysgol yn cael eu hannog cyn gynted ag y bo'r ysgol yn agor er mwyn gwreiddio arfer da a fydd yn cael ei fabwysiadu gan fwy o ddisgyblion wrth i'r ysgol a'r datblygiad ehangu.
103. Disgwylir i ddatblygiad preswyl Plasdŵr gynnwys cyfleusterau teithio llesol megis llwybrau cerdded a beicio ar wahân ar hyd ffyrdd sylfaenol allweddol. Mae'n rhaid i'r rhain glymu a chysylltiadau addas i gynnig llwybrau diogel parhaus i ddisgyblion cynradd ar draws yr ardal yn uniongyrchol i'r ysgol o unrhyw gyfeiriad y byddai disgybl, rhiant neu aelod staff yn ei ddymuno.
104. Byddai mesurau i annog teithio cynaliadwy i'r ysgol yn yr ardal yn cynnwys mesurau diogelwch y tu allan i'r ysgol ac yn y cyffiniau agos. Bydd cyfyngiad cyflymder o 20mya yn weithredol ar draws y datblygiad. Gallai mesurau eraill i wella diogelwch a gwneud dewisiadau teithio llesol yn fwy deniadol gynnwys ymgorffori Stryd Ysgol er mwyn atal mynediad heb awdurdod gan gerbydau ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Nid yw'r tîm trafndiaeth yn cefnogi darparu unrhyw ffurf ar gyfleuster gollwng a chodi ar gyfer cerbydau preifat. Ni fydd parcio ar strydoedd ger yr ysgol yn cael ei gymeradwyo ac fe gyflwynir cyfyngiadau parcio priodol i'r perwyl hwnnw. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn treialu defnyddio Gorchmynion Rheoli Traffig i gyfyngu ar fynediad cerbydau i strydoedd y tu allan i ysgolion adeg yr oriau gollwng a chodi yn y bore a'r prynhawn. Mae'n bosib y gallai'r ymagwedd yma gael ei defnyddio i gyfyngu ar barcio a mynediad ynghlwm â'r ysgol newydd.
105. Dylid gwneud y gorau o lwybrau cerdded, beicio a sgwtera o'r cyfeiriadau a ddymunir er mwyn cynnig cyfle da a chynyddu cyfleustra ac annog mabwysiadu teithio llesol.
106. Byddai cyfleusterau croesi lle bo'u hangen yn darparu ar gyfer pob ffurf ar dulliau llesol e.e. croesfannau zebra cyfochrog.
107. Mae gofyn cael cysylltiadau i gerddwyr at fannau bysiau mewn lleoliadau sydd yn gyfleus i'r ysgol.
108. Dylid darparu o leiaf y lleiafswm o ran cyfleusterau storio beics a sgwteri yn unol â'r lefelau isaf a nodir yng Nghanllaw Cynllunio Atodol y Cyngor ar

Reoli Effeithiau Trafnidiaeth (2018) CCA, a hynny mewn lleoliadau cyfleus a diogel ar safle'r ysgol o'r dechrau'n deg.

109. Byddai gofyn cael cyfleuster gollwng ar gyfer trafndiaeth unrhyw ddisgybl CAA.
110. Rhaid i gysylltiadau Teithio Llesol gael eu cydlynu a'u cysylltu â llwybrau i ysgolion ger llaw.
111. Rhaid i ddatblygiad Cynllun Teithio Llesol yr ysgol gynnwys yr ysgol a'i holl fynychwyr yn y dyfodol, a fydd efallai yn gofyn hefyd am gael mewnbwn gan fynychwyr ysgolion ger llaw er mwyn creu mesurau effeithiol a chydlynus. Gweler sylwadau ar waith sydd eisoes yn mynd rhagddo gan swyddogion Cynllun Teithio Llesol, fel y nodir ym mharagraffau 54-56.
112. Bydd gofyn cael Asesiad Trafnidiaeth manwl fel rhan o'r cais cynllunio ar gyfer yr ysgol yn dilyn y cyngor a roddir yn Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth CCA y Cyngor (2018). Mae angen i'r tîm trafndiaeth gael ymgysylltiad buan â'r dylunwyr a'r ymgynghorwyr trafndiaeth ar gyfer y project.

## **ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Cabinet yn:

Cyhoeddi hysbysiad statudol i:

- Sefydlu ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad ddwy ffrwd gyda darpariaeth feithrin i wasanaethu camau cynnar y datblygiad ym Mhlasdŵr o fis Medi 2021.
- Dylid nodi cyn rhoi'r cynigion ar waith bod adroddiad pellach yn cael ei roi i'r Cabinet yn nodi manylion unrhyw wrthwynebiad a dderbyniwyd, yr ymatebion arfaethedig i'r gwrthwynebiadau hynny ac argymhellion i roi'r cynllun ar waith neu fel arall.

<b>UWCH SWYDDOG CYFRIFOL</b>	<b>Enw'r Cyfarwyddwr</b>
	Dyddiad cyflwyno i swyddfa'r Cabinet

*Atodir yr atodiadau canlynol:*

*Atodiad 1: Dogfen Ymgynghori*

*Atodiad 2: Nodiadau o gyfarfodydd disgyblion*

*Atodiad 3: Nodiadau o gyfarfod ymgynghoriad cyhoeddus*

*Atodiad 4: Nodiadau o gyfarfodydd galw heibio*

*Atodiad 5: Ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad*

*Atodiad 6: Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad*



*Atodiad 7: Dadansoddiad cryno o'r ymatebion*

*Atodiad 8: Adnodd Sgrinio Statudol ac Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb*

*Atodiad 9: Cymraeg 2050 - Miliwn o siaradwyr Cymraeg*

DRAFFT